*Ysgol Plas Coch*
*Ffordd Stansty*
*Wrecsam*
*LL11 2BU*
*Ffôn: 01978 311198*
*Ffacs: 01978 311198*

Ysgol Plas Coch
Stansty Road
Wrexham
LL11 2BU
Tel: 01978 311198
Fax: 01978 311198

# YSGOL PLAS COCH

**Mr Osian Jones BA**
***Pennaeth* Head Teacher**

*E-bost*/E-mail: **mailbox@plascochpri.wrexham.sch.uk**

Medi 12fed 2019

Annwyl rieni a gwarchodwyr,

Gan ei bod yn ddechrau blwyddyn newydd, gyda disgyblion wedi symud i ddosbarthiadau gwahanol, hoffwn eich atgoffa o drefniadau gollwng plant yn yr ysgol yn y bore:

**Dosbarthiadau Clywedog, Bers, Erddig, Clwyd a Dyfrdwy –** mynd â'r plant at ddrysau'r dosbarthiadau, ar hyd yr llwybr, drwy fuarth y Meithrin (heibio'r offer chwarae pren) a'r Cyfnod Sylfaen.

**Dosbarth Gwenfro –** mynd â'r plant at ddrws y dosbarth, ond, gan ddilyn y llwybr o amgylch ochr arall yr ysgol, h.y. heibio i'r estyniad newydd ac ar hyd iard yr Adran Iau. Bydd staff wrth y giat Bl 5/6 yn eich gadael drwodd. Os oes gan eich plentyn frawd neu chwaer iau, gallant fynd i mewn drwy ddosbarth y brawd neu chwaer yn lle eich bod yn gorfod ceredded rownd i ben arall yr ysgol. Mae'r drefn yn wahanol i Gwenfro gan fod angen cadw y giat rhwng y ddwy iard ar gau.

**Adran Iau (Bl 3,4,5 a 6) –** gollwng y plant yn ymyl y giât ger cornel yr estyniad newydd (Bl 5/6) i ofal y staff ar ddyletswydd. Ni fydd angen i rieni yr Adran Iau ddod ymhellach na'r man yma, gall y plant fynd â'u cotiau a bagiau eu hunain i'r cyntedd. Os bydd gennych neges i athro / athrawes eich plentyn, bydd staff wrth y man gollwng yma i gymryd neges a'i phasio ymlaen. Os oes angen gweld athro / athrawes eich plentyn arnoch, gofynwn i chi ddilyn y drefn arferol o fynd at y swyddfa wrth y brif fynedfa.

**Ychydig o bwyntiau cyffredinol i fynd efo'r uchod:**

- Dim ond rhieni **dosbarth Gwenfro** fydd yn cael pasio'r man gollwng wrth yr estyniad i fynd â'u plant at y dosbarth. Bydd rhieni Bl 3-6 i ollwng eu plant i ofal y staff yno.
- Os nad yw'r plant yn mynychu'r clwb brecwast, ni ddylid eu gollwng eu hunain yn yr ysgol tan 8:50am, pan mae'r giatiau'n cael eu hagor a'r staff ar ddyletswydd am resymau diogelwch amlwg.
- Yn yr un modd, dylai rhieni aros efo'r plant sy'n dod i'r clwb brecwast nes fod y clwb yn agor am 8:05 gan fod yna rai disgyblion ifanc iawn yn cael eu gadael y tu allan i'r ysgol heb oruchwiliaeth cyn yr amser yma weithiau.
- Wrth ollwng plant yn y clwb brecwast, nid oes angen i rieni fynd ymhellach na'r drws ble mae'r bwrdd a'r cofrestr – bydd staff yn hebrwng y plant lleiaf i nôl eu brecwast o'r gegin.
- Cofiwch fod rhaid i'r plant gymryd rhywbeth i frecwast neu ni fyddant yn cael myncyhu'r clwb.

Gyda diolch am eich cydweithrediad,

Osian Jones